



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

# Llywodraeth Cymru Rheoleiddio Tai

Dyfarniad Rheoleiddio

Cymdeithas Tai Cymoedd i'r Arfordir – L137

Mehefin 2017

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau o dan Ran 1 o Ddeddf Tai 1996 i reoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig mewn perthynas â'u darpariaeth o ran tai ac mewn perthynas â materion yn ymwneud â llywodraethu a rheolaeth ariannol.

Mae Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi'r Dyfarniad Rheoleiddio hwn o dan adran 33A a 35 o Ddeddf Tai 1996.

Cyhoeddir y dyfarniad hwn yn unol â'r Fframwaith Rheoleiddiol ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru a'r safonau perfformio cysylltiedig.

<http://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/services-and-support/regulation/regulatory-framework/?skip=1&lang=cy>

Mae'r dyfarniad yn seiliedig ar werthusiad y Gymdeithas ei hun o'i chydymffurfiaeth â'r safonau perfformiad ynghyd â gwybodaeth reoleiddiol a feithrinwyd drwy drefniadau rheoli cydberthynas cydreoleiddiol parhaus rhwng y Rheoleiddiwr a'r Gymdeithas.

## Sail y Dyfarniad

Nod y dyfarniad hwn yw rhoi dealltwriaeth i'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, ei denantiaid, defnyddwyr y gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill o'i hyfywedd ariannol a pha mor dda y mae'n perfformio, ar adeg benodol mewn perthynas â:

- Llywodraethu a Darparu Gwasanaethau
- Rheolaeth Ariannol

Ni ddylai unrhyw barti arall ddibynnu ar y dyfarniad hwn at unrhyw ddiben arall. Y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig sy'n gyfrifol am ba mor gyflawn a chywir yw'r wybodaeth a roddwyd i'r Rheoleiddiwr.

Tîm Rheoleiddio Tai  
Is-adran Datblygu a Rheoleiddio'r Sector Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig  
Llywodraeth Cymru  
Swyddfa Merthyr Tudful  
Rhyd-y-car  
CF48 1UZ  
e-bost: [housingregulation@wales.gsi.gov.uk](mailto:housingregulation@wales.gsi.gov.uk)

## Proffil

Mae Tai Cymoedd i'r Arfordir Cyfyngedig ("V2C" neu "y Gymdeithas") yn Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, a grëwyd yn dilyn trosglwyddo eiddo'n wirfoddol ar raddfa fawr o Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ym mis Medi 2003. Mae wedi'i chofrestru o dan Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 ac mae ganddi reolau elusennol.

Mae V2C yn berchen ar 5,835 o gartrefi anghenion cyffredinol ac yn eu rheoli, yn cynnwys 213 o gartrefi gwarchod a chartrefi gofal ychwanegol, ledled Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'n darparu gwasanaethau rheoli i 734 o lesddalwyr.

## Data Ariannol Allweddol

	Data Hanesyddol		Terfyn Cyfamod	Cyfarteledd ar gyfer y Sector
	2014/15 (wedi ei ailddatgan)	2015/16		2015/16
<b>Perfformiad</b>				
Gwarged gweithredu fel % o'r trosiant	11.7%	14.3%	n/a	19.1%
Gwarged/ (diffyg) ar gyfer y flwyddyn fel % o'r trosiant	2.9%	2.9%	n/a	8.7%
Colled o eiddo gwag a rhent heb ei gasglu fel % o'r incwm o renti	2.5%	2.8%	n/a	1.6%
<b>Cyllid</b>				
Benthyciadau sefydlog fel % o'r cyfanswm	61%	100%	n/a	74%
Benthyciadau'r gymdeithas £miliwn	49.0	55.1	87.2	n/a
Mae'r balansau arian parod cyfredol a'r cyfleusterau heb eu tynnu yn ddigonol i'r Gymdeithas gwblhau'r rhaglen ddatblygu y mae wedi ymrwymo iddi.				

## Dyfarniad Rheoleiddio – Statws Cydreoleiddio

### **Statws Cydreoleiddio – Mehefin 2017**

#### **Llywodraethu a Gwasanaethau - Safonol**

- Yn nodi ac yn rheoli risgiau newydd a risgiau sy'n datblygu yn briodol.

#### **Hyfywedd Ariannol - Safonol**

- Yn bodloni gofynion o ran hyfywedd ac mae gan y Gymdeithas yr adnoddau ariannol i ymdrin â senarios yn briodol.